# Materion Allweddol, y Weledigaeth a'r Amcanion, Opsiynau Twf ac Opsiynau Gofodol
# Papur Ymgynghorol
# (Mai 2024)



**Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) 2023-2038**

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

# Contents


| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | | Rhagair | 1 |
| 2 | | Cyflwyniad | 2 |
| 3 | | Materion Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion | 3 |
| | 3.1 | Materion Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion: Cyflwyniad | 3 |
| | 3.2 | Materion Allweddol, Heriau a Sbardunau | 3 |
| | 3.3 | Gweledigaeth | 5 |
| | 3.4 | Amcanion | 7 |
| 4 | | Opsiynau Twf | 10 |
| | 4.1 | Opsiynau Twf: Senarios Twf | 10 |
| | 4.2 | Dadansoddiad o'r Opsiynau Twf | 12 |
| 5 | | Opsiynau Gofodol | 15 |
| | 5.1 | Opsiynau Gofodal: Cyflwyniad | 15 |
| | 5.2 | Opsiwn Gofodol A - Parhau a Strategaeth y CDLI a Fabwysiadwyd | 15 |
| | 5.3 | Opsiwm Gofodol B - Gwasgaru twf ar draws yr Awdurdod | 17 |
| | 5.4 | Opsiwn Gofodol C - Ardal Twf Genedlaethol a Seilwaith Trafnidiaeth Gynaliadwy | 19 |
| | 5.5 | Opsiwn Gofodol D - Adeo;adu ar gyfleoedd yn y Cymoedd | 20 |
| | 5.6 | Opsiwn Gofodol E - Dull Gweithredu Canol Trefi yn Gyntaf | 22 |
| | 5.7 | Opsiwn Gofodol F - Cyfuno Opsiwn C ac Opsiwn D | 24 |

## Rhagair

**1.0.1** Dogfen ymgynghori ddrafft yw hon, yn cyflwyno'r Materion Allweddol, y Weledigaeth a'r Amcanion, yr Opsiynau Twf a'r Opsiynau Gofodol a nodwyd gan y Cyngor ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (CDLIA) sydd i ddod. Gwahoddir sylwadau yn awr ar bob agwedd o'r ddogfen, a byddwn ni'n croesawu unrhyw awgrymiadau ar gyfer newidiadau neu addasiadau.

**1.0.2** Bydd yr holl sylwadau a wneir yn briodol yn cael eu cymryd i ystyriaeth, a bydd y newidiadau sy'n deillio o hynny yn cael eu hymgorffori mewn fersiynau o'r ddogfen yn y dyfodol, ac yn y CDLIA lle bo hynny'n briodol. Bydd iteriadau o'r ddogfen yn y dyfodol yn rhan o'r ymgynghori sydd i ddod ar y CDLIA, gan gynnwys cyfnod y Strategaeth a Ffafrir ddiwedd eleni/yn gynnar yn 2025.

**Lleisio Barn**

**1.0.3** Bydd yr ymgynghoriad yn cychwyn ganol dydd (12 o'r gloch) **ddydd Mawrth 14 Mai 2024** ac yn parhau am gyfnod o 3 wythnos. Y **dyddiad cau** ar gyfer derbyn sylwadau yw **canol nos ddydd Mercher 5 Mehefin**. Ni fyddwn yn derbyn sylwadau a ddaw i law wedi'r dyddiad cau. O ddewis, byddem yn hoffi i sylwadau gael eu cyflwyno'n uniongyrchol ar-lein:

- Trwy'r Porth Ymgynghori, sef: **https://neath-porttalbot-consult.objective.co.uk/kse** gan ddilyn y cyfarwyddiadau ynghylch sut mae cyflwyno sylwadau.

Os na fedrwch gyflwyno sylwadau'n uniongyrchol ar-lein, gofynnwch i ni am Ffurflen Sylwadau, a'i dychwelyd:

- Drwy e-bost i: **ldp@npt.gov.uk ; neu**
- Drwy'r post at:

**Mr Ceri Morris**
**Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot,**
**Y Ceiau,**
**Ffordd Brunel, Parc Ynni Baglan,**
**Castell-nedd, SA11 2GG.**

Gofynnir i chi lenwi'r ffurflen mewn PRIFLYTHRENNAU ac **Inc Du** yn unig.

***DS*** - Bydd yr holl sylwadau a ddaw i law ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio, ac ni ellir eu trin yn gyfrinachol. Mae Datganiad Preifatrwydd Gwasanaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd CNPT i'w weld yn: **www.npt.gov.uk/16275**

# 2 Cyflwyniad

## Introduction

**2.0.1** Mae tair rhan i'r ddogfen ymgynghori anffurfiol hon; pob un ohonynt yn delio ag agwedd wahanol ar y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (CDLIA) i Gyngor Castell-nedd Port Talbot (CCNPT).

**2.0.2** Mae'r rhan gyntaf o'r ddogfen hon yn cyflwyno drafft o'r Materion Allweddol, y Weledigaeth a'r Amcanion y bydd angen i'r CDLIA eu cymryd i ystyriaeth.

**2.0.3** Mae ail ran y ddogfen yn manylu ar yr Opsiynau Twf posibl y gellid eu defnyddio i lunio'r CDLIA. Mae'r adran hon yn trafod ar gyfer faint o gartrefi a swyddi byddwn ni'n cynllunio ar eu cyfer.

**2.0.4** Mae rhan olaf y ddogfen yn edrych ar yr amrywiol Opsiynau Gofodol realistig sy'n bosibl. Mae'r adran hon yn delio â'r mannau lle bydd yr awdurdod yn gweld datblygu'n dod i'r amlwg ar draws y CDLIA.

**2.0.5** Bydd papur manylach ar y Materion Allweddol, y Weledigaeth, yr Amcanion, a'r Opsiynau Twf a Gofodol yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r strategaeth a ffafrir.

### 3.1 Materion Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion: Cyflwyniad

**3.1.1** Mae Materion Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion drafft y CDLIA wedi cael eu datblygu'n unol â'r fframwaith arweiniol a deddfwriaethol perthnasol, er mwyn rhoi sylw i gynlluniau a pholisïau eraill lleol a chenedlaethol perthnasol a'u cymryd i ystyriaeth. Y man cychwyn wrth ddatblygu'r Materion Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion newydd oedd y gwaith ymgynghori helaeth a gynhaliwyd gan y cyngor fel rhan o'r ymgyrch 'Dewch i Sgwrsio' yn ystod 2020 a 2021, i lywio ymateb y cyngor i bandemig Covid-19. Dilynwyd hynny wedyn gan ymgynghoriad penagored pellach ('Gadewch i ni Ddal i Sgwrsio') yn ystod 2023. Mae'r materion, y gweledigaethau a'r amcanion a fynegwyd mewn strategaethau a chynlluniau eraill cenedlaethol a lleol perthnasol hefyd wedi cael eu dadansoddi a'u cymryd i ystyriaeth.

**3.1.2** Caiff y broses a arweiniodd at lunio'r Materion Allweddol, y Weledigaeth a'r Amcanion ei hesbonio mewn papur cefndir ar wahân. Paratowyd fersiwn ragarweiniol o'r papur cefndir yn gynnar yn 2023 at ddibenion ymgynghori / cynnwys, a'i dosbarthu i'r rhanddeiliaid ym mis Mawrth 2023 ar gyfer sylwadau/mewnbwn. Cafodd ei hasesu hefyd wedi hynny fel rhan o'r Asesiad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) y mae'n ofynnol ei gyflawni ar gyfer pob agwedd ar y CDLIA. Gwnaed newidiadau, sydd wedi'u hymgorffori yn y ddogfen hon, o ganlyniad i'r amrywiol fewnbwn hwn, a rhagwelir y bydd newidiadau pellach yn cael eu gwneud wrth i'r broses o baratoi'r CDLIA newydd fynd rhagddi ac i ymgyngoriadau pellach gael eu cynnal.

**3.1.3** Y bwriad yw y bydd y materion a'r blaenoriaethau a nodwyd trwy'r broses hon yn cael eu symud ymlaen yn y CDLIA i lywio'r polisïau cynllunio a'r dulliau gweithredu fydd yn cael eu rhoi ar waith yn ystod cwmpas 15 mlynedd y cynllun newydd (2023 - 2038).

**3.1.4** Isod cyflwynir y Materion Allweddol, y Weledigaeth a'r Amcanion drafft a nodwyd ar gyfer y cynllun trwy'r broses uchod.

### 3.2 Materion Allweddol, Heriau a Sbardunau

**3.2.1** Mae'r ystyriaethau uchod wedi bwydo i'r broses o nodi 14 o Faterion Allweddol newydd drafft ar gyfer y CDLIA, i gymryd lle'r rhai yn y CDLI gwreiddiol. Mae'r Materion Allweddol newydd wedi cael eu categoreiddio yn ôl meysydd pwnc y CDLIA, sy'n deillio o'r strwythur a ddefnyddir ar gyfer Polisi Cynllunio Cymru.

## Materion Allweddol Drafft y CDLlA

# *Materion Trosfwaol*

**MAN 1 Argyfwng yr Hinsawdd:** Mae gweithredu i fynd i'r afael ag achosion ansefydlogrwydd cynyddol yr hinsawdd ac ymdrin ag effeithiau hynny yn awr ac yn y dyfodol bellach yn fater brys.

**MAN 2 Argyfwng Byd Natur:** Mae rhoi sylw i'r dirywiad lleol a byd-eang mewn bioamrywiaeth wedi dod yn fater brys. Mae gofyn bod pob awdurdod cyhoeddus yn *ceisio* cynnal a gwella bioamrywiaeth, a hybu gwydnwch ecosystemau er mwyn sicrhau budd net i fioamrywiaeth yn sgîl pob datblygiad newydd.

**MAN 3 Iechyd a Llesiant:** Mae poblogaeth CNPT yn heneiddio, gyda diet sydd ymhlith y lleiaf iach ac un o'r lefelau isaf o weithgarwch corfforol yng Nghymru, ac mae hynny'n golygu bod cyfraddau gordewdra ac afiechyd yn cynyddu.

# *Dewisiadau Strategol a Gofodol*

**MAN 4 Creu Lleoedd Strategol:** Mae'r rhan fwyaf o boblogaeth CNPT, ei gweithgarwch economaidd a diwylliannol, a'i seilwaith a chyfleusterau pwysig i'w canfod yn y llain arfordirol, ac mae hynny'n golygu bod anghydraddoldeb daearyddol o ran llesiant, gyda'r mewndir a'r cymoedd yn llai breintiedig.

**MAN 5 Creu Lleoedd ar Waith:** Bu colled ganfyddedig o ran treftadaeth a chymeriad naturiol, diwylliannol ac adeiledig ar draws cymunedau CNPT, ei hamgylchedd naturiol, ei threfluniau a'i thirluniau, ochr yn ochr â cholli rôl a phwrpas yn achos llawer o gymunedau'r cymoedd.

# *Lleoedd Actif a Chymdeithasol*

**MAN 6 Symud:** Mae cysylltiadau trafnidiaeth, yn arbennig ar gyfer Teithio Llesol a Thrafnidiaeth Gyhoeddus, yn wael mewn llawer o ardaloedd (yn arbennig y cymoedd), ac mae hynny'n creu anfantais ac yn cael effeithiau niweidiol o ran anghydraddoldeb gofodol, ôl troed carbon a iechyd a llesiant ar draws y fwrdeistref sirol.

**MAN 7 Byw:** Mae'n rhaid rhoi sylw i'r angen am gartrefi ychwanegol o bob math, gan gynnwys tai fforddiadwy a darpariaeth ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.

**MAN 8 Gweithgareddau:** Er mwyn bod yn gynaliadwy, mae angen mynediad parod ar bob cymuned at nwyddau, gwasanaethau, swyddi a chyfleusterau hamdden a chymunedol lleol.

# *Lleoedd Cynhyrchiol, Llawn Menter*

**MAN 9 Adferiad Economaidd:** Mae newidiadau economaidd strwythurol pwysig ar waith sy'n debygol o drawsffurfio'r economi genedlaethol a rhanbarthol, yn ogystal â defnyddiau diwydiant a chyflogaeth lleol ar hyd coridor yr arfordir yn CNPT (gan gynnwys darpariaethau arfaethedig y Porthladd Rhydd a datblygiadau yn y gwaith dur). Bydd angen rhoi sylw llawn i'r newidiadau hyn, a mwyafu'r manteision posibl.

**MAN 10 Seilwaith Economaidd:** Mae angen lledaenu manteision datblygu economaidd cynaliadwy a thwf ar draws y fwrdeistref sirol trwy ddarparu seilwaith economaidd modern priodol, gan gynnwys gwasanaethau digidol.

**MAN 11 Ynni:** Er mwyn cyflawni targedau uchelgeisiol o ran y newid yn yr hinsawdd, bydd angen i CNPT harneisio'i adnoddau ynni gwyrdd sylweddol a datgarboneiddio gymaint â phosibl ym mhob sector.

**MAN 12 Adnoddau Materol a'r Economi Gylchol:** Dylai adnoddau mwynau a seilwaith mwynau CNPT gael eu cadw a'u diogelu, ochr yn ochr â galluogi cyfraniad priodol a chymesur i'r cyflenwad o fwynau a sicrhau y cyfyngir gymaint â phosibl ar effeithiau niweidiol, ochr yn ochr â darparu cyfleusterau priodol o ran trin gwastraff, ailgylchu a gwaredu.

## *Lleoedd Unigryw a Naturiol*

**MAN 13 Nodweddion Arbennig Lleoedd:** Mae angen cadw, diogelu a gwella cyfoeth CNPT o amgylcheddau hanesyddol a naturiol, ei Seilwaith Gwyrdd, ei phridd, ei thirluniau a'i hardaloedd arfordirol, er mwyn i genedlaethau'r dyfodol eu mwynhau.

**MAN 14 Nodweddion Amgylcheddol Lleoedd:** Mae perygl llifogydd, adnoddau dŵr ac ansawdd dŵr yn debygol o fod yn ystyriaethau pwysicach gyda threigl y blynyddoedd, a bydd angen rhoi sylw iddyn nhw ochr yn ochr â phob math o lygredd, gan gynnwys materion ansawdd aer.

### 3.3 Gweledigaeth

**3.3.1** Mae angen i'r weledigaeth ar gyfer y CDLlA gyd-fynd â gweledigaeth strategaethau a chynlluniau eraill perthnasol, a'r bwriad yw dilyn dull tebyg o nodi canlyniadau a ddymunir er mwyn sicrhau ffocws ac eglurder o ran yr hyn mae'r cynllun newydd yn gobeithio ei gyflawni. Nodwyd 14 o amcanion drafft ar gyfer y CDLlA. Rhestrir y rhain isod fel elfennau o weledigaeth ddrafft y CDLlA er mwyn cyflwyno cyfres wedi'i rhifo o ddyheadau a disgwyliadau ar gyfer y cynllun newydd ar draws pob maes pwnc.

## Gweledigaeth Ddrafft y CDLIA

***(Erbyn 2038) bydd Castell-nedd Port Talbot yn fan lle mae:***

1. ***Argyfwng yr hinsawdd yn derbyn sylw cadarnhaol***: Bydd CNPT ar y llwybr cywir i gyrraedd y targedau newid yr hinsawdd y cytunwyd arnynt, a bydd yn addasu'n briodol i hinsawdd newidiol.
2. ***Argyfwng byd natur yn derbyn sylw cadarnhaol:*** Bydd CNPT yn cyflawni budd net parhaus o safbwynt bioamrywiaeth, geoamrywiaeth a phridd, a bydd yn hybu gwydnwch ecosystemau o ganlyniad i gynigion datblygu dros gyfnod y cynllun.
3. ***Iechyd a llesiant y cyhoedd yn gwella***: Bydd manteision sylweddol o ran iechyd a llesiant y cyhoedd a manteision amgylcheddol, gan gynnwys cyfleusterau i bobl hŷn, yn cael eu cyflawni trwy ddatblygiadau newydd a adeiladir
4. ***Dyfodol hirdymor mwy cynaliadwy i aneddiadau allweddol y cymoedd <u>ac mae</u> potensial economaidd y llain arfordirol yn cael ei fwyafu, ochr yn ochr â diogelu a gwella amgylcheddau tir a môr:*** Yn sgîl sefyllfa a rôl CNPT fel sbardun economaidd allweddol yn Ninas-Ranbarth Bae Abertawe, bydd cyfleoedd economaidd a datblygiadau technolegol gwyrdd newydd pwysig yn dod i'r amlwg yng nghyswllt ardaloedd cyflogaeth Campws Bae Prifysgol Abertawe, Bae Baglan a Glannau'r Harbwr. Bydd manteision hynny'n cael eu dosbarthu'n decach trwy ddatblygu aneddiadau allweddol ym mhob un o gymoedd CNPT, a rhoi mwy o bwyslais ar atyniadau ymwelwyr, gan gynnwys safleoedd treftadaeth, atyniadau antur awyr agored yng nghymoedd Nedd ac Afan, ac atyniadau glan môr traddodiadol ar Draeth Aberafan.
5. ***Treftadaeth bwysig naturiol, ddiwylliannol ac adeiledig holl gymunedau CNPT yn cael ei chefnogi, ei gwella a'i chyfoethogi trwy gymhwyso egwyddorion creu lle****:* Bydd natur a chymeriad unigryw tair prif dref Castell-nedd, Port Talbot a Phontardawe, eu hanes, eu diwylliant a'u hasedau naturiol unigol, yn cael eu diogelu, eu rheoli'n gynaliadwy, a'u gwella. Bydd cymeriad gwahanol unigryw pob un o'r pum cwm yn CNPT yn cael ei gadw a'i wella trwy gynnal a gwella'u prif aneddiadau a'u hamgylcheddau unigryw.
6. ***Teithio a thrafnidiaeth yn fwy cynaliadwy, cyfleus, hygyrch ac effeithlon:***Bydd gwelliannau gyda phwyslais ar Deithio Llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus, yn arbennig yn ardaloedd y cymoedd, yn gwella hygyrchedd i bob cymuned.
7. ***Sylw'n cael ei roi i'r angen am gartrefi o bob math ar draws y fwrdeistref sirol.*** Bydd mesurau i alluogi ac annog cartrefi newydd mewn lleoliadau cynaliadwy yn rhoi sylw i anghenion tai.
8. ***Pob cymuned yn cael mynediad hwylus at nwyddau, gwasanaethau, swyddi a chyfleusterau cymunedol.*** Bydd mesurau i alluogi ac annog darparu gwasanaethau, cyflogaeth a chyfleusterau mewn lleoliadau cynaliadwy yn rhoi sylw i ofynion y gymuned.
9. ***Manteision newid economaidd strwythurol pwysig, yn genedlaethol ac yn lleol, yn cael eu mwyafu:*** Bydd newidiadau economaidd strwythurol parhaus sy'n effeithio ar ddiwydiannau lleol pwysig a chyflogaeth yn cael eu croesawu, ac mae'r manteision posibl o ran iechyd, llesiant, cyflogaeth a'r amgylchedd lleol yn cael eu mwyafu ar gyfer trigolion CNPT.

10. ***Holl ardaloedd CNPT yn cael eu gwasanaethu gan y seilwaith economaidd ffisegol a digidol diweddaraf:*** Bydd gwelliannau i'r seilwaith economaidd yn helpu pob cymuned i elwa o seilwaith economaidd modern sy'n briodol ar gyfer eu hanghenion a'u dyheadau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, tra bydd atyniadau gwell i ymwelwyr, yn arbennig yn ardaloedd Cwm Nedd a Chwm Afan, yn annog twf yn y sector twristiaeth.
11. ***Cyfraniad pwysig yn cael ei wneud i anghenion ynni Cymru:*** Bydd y mesurau a roddir ar waith i ymateb i'r galw am ynni ac effeithlonrwydd yn cael effaith, a budd priodol yn dod o botensial CNPT i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel, gan roi sylw i dargedau lleihau carbon a gwella effeithlonrwydd adeiladau.
12. ***Adnoddau, cronfeydd a seilwaith mwynau yn cael eu cadw a'u diogelu, a chyfleusterau priodol ar gyfer trin a gwaredu gwastraff yn cael eu darparu i ymateb i anghenion:*** Bydd mesurau i ddiogelu adnoddau a seilwaith mwynau, gwarchod cronfeydd mwynau a galluogi defnydd ohonynt yn ôl y galw, ynghyd â thrin, ailgylchu a gwaredu gwastraff yn briodol, yn rhoi sylw i'r holl ofynion priodol.
13. ***Asedau ac amgylcheddau naturiol a hanesyddol, bioamrywiaeth, Seilwaith Gwyrdd, tirluniau ac ardaloedd arfordirol yn cael eu cadw, eu diogelu a'u gwella:***Bydd mesurau priodol yn cadw ac yn gwella amgylchedd hanesyddol unigryw CNPT sydd wedi goroesi o bob cyfnod, o fryngaerau cynhanesyddol i rolau allweddol y diwydiannau glo a metel mewn diwydiannu ar draws y byd, y cyfan yng nghyd-destun naturiol godidog y cymoedd a'r arfordir.
14. ***Perygl llifogydd, newid arfordirol a materion llygredd yn derbyn sylw priodol, gan leiafu'r effeithiau niweidiol:*** Bydd mesurau priodol yn arwain at lai o risg yn sgîl newid amgylcheddol, a gostyngiad mewn lefelau llygredd.

## 3.4 Amcanion

**3.4.1** Bwriad amcanion y CDLIA yw nodi'r hyn mae'r cynllun yn bwriadu ei gyflawni o ran pob un o'r pynciau, er mwyn cyflawni'r canlyniadau sy'n rhan o'r weledigaeth. O ganlyniad, mae'r amcanion yn cyfateb i'r materion allweddol a'r canlyniadau, ac maent wedi'u rhestru o dan yr un penawdau pwnc. Mae hynny wedi creu 14 o amcanion drafft i'r CDLIA, fel y nodir isod.

## Amcanion Drafft y CDLIA

**RHIF1:** Lleiafu achosion y newid yn yr hinsawdd ac addasu i'r effeithiau cyfredol a'r rhai a ragwelir trwy wneud y canlynol:

- Lleiafu allyriadau nwyon tŷ gwydr;
- Mynnu bod lleoliad a dyluniad datblygiadau yn briodol; a
- Diogelu a gwella'r holl asedau amgylcheddol sy'n ofynnol ar gyfer addasu a gwydnwch yng nghyswllt yr hinsawdd.

**RHIF2:** Cyflawni budd net o ran bioamrywiaeth a gwell gwydnwch i ecosystemau yn sgîl datblygiadau newydd ar draws y fwrdeistref sirol.

**RHIF3:** Sicrhau bod pob datblygiad newydd yn darparu amgylchedd lleol iach sy'n annog ffordd fwy egnïol a iach o fyw i bob grŵp oed.

**RHIF4:** Gwireddu manteision llawn twf economaidd gwyrdd ar draws y fwrdeistref sirol i ddarparu cymunedau cwbl gynaliadwy ym mhob ardal leol, ochr yn ochr â diogelu amgylchedd Castell-nedd Port Talbot.

**RHIF5:** Cynnal, gwella a chyfoethogi cymunedau CNPT trwy gamau gweithredu cadarnhaol i greu lleoedd ar lefel leol.

**RHIF6:** Lleihau anghydraddoldebau gofodol ym maes teithio a thrafnidiaeth ar draws y fwrdeistref sirol trwy wella Teithio Llesol a chysylltiadau a gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, yn arbennig yn ardaloedd y cymoedd.

**RHIF7:** Cyflwyno cartrefi newydd digonol o safon uchel o'r mathau sy'n ofynnol yn y lleoliadau mwyaf addas i ddiwallu'r angen a nodwyd.

**RHIF8:** Annog a chefnogi cadw a darparu cyfuniad o gyfleusterau cymunedol, manwerthu, cyflogaeth a hamdden mewn lleoliadau priodol ar draws y fwrdeistref sirol.

**RHIF9:** Annog a galluogi technolegau a diwydiannau newydd, glân i ymsefydlu a thyfu, er mwyn hybu a chynnal rôl arweiniol i CNPT yn yr economïau adnewyddadwy a diwydiannol cenedlaethol a rhyngwladol.

**RHIF10:** Sicrhau bod holl ardaloedd CNPT yn gallu elwa o dwf economaidd a seilwaith economaidd modern addas i ddiwallu eu hanghenion a'u dyheadau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

**RHIF11:** Galluogi CNPT i wneud cyfraniad priodol at gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel, ochr yn ochr â hybu'r holl gamau priodol i leihau'r galw am ynni a gwella effeithlonrwydd ar draws pob sector.

**RHIF12:** Cadw a diogelu adnoddau, cronfeydd a seilwaith mwynau ochr yn ochr â gwneud cyfraniad priodol, cymesur i'r cyflenwad o fwynau i ddiwallu angen lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan sicrhau ar yr un pryd bod effeithiau niweidiol yn cael eu lleiafu, a bod darparu cyfleusterau a phrosesau priodol ar gyfer trin, ailgylchu a gwaredu gwastraff yn cael eu hwyluso.

**RHIF13:** Sicrhau bod asedau ac amgylcheddau naturiol a hanesyddol CNPT, ei Seilwaith Gwyrdd, ei thirluniau, ei harfordir sydd heb ei datblygu a'i hardaloedd arfordirol yn cael eu cadw, eu diogelu a'u gwella.

**RHIF14:** Sicrhau bod materion amgylcheddol a newidiadau i'r dyfodol, gan gynnwys risg llifogydd, newid arfordirol a materion llygredd yn cael eu hosgoi'n briodol, yn derbyn sylw, a bod yr effeithiau niweidiol yn cael eu lleiafu.

## 4.1 Opsiynau Twf: Senarios Twf

**4.1.1** Ym mis Ebrill 2022, penodwyd yr ymgynghorwyr Turleys, SQW ac Edge Analytics i gynnal Asesiad Twf Economaidd a Thai (EHGA)[1]ar gyfer Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Diweddarwyd y gwaith yn gynnar yn 2024 i adlewyrchu cyfnod diwygiedig y cynllun (2023-2038), a nifer o newidiadau cyd-destunol, gan gynnwys rhyddhau'r amcangyfrifon poblogaeth diwygiedig, y cynnig llwyddiannus am Borthladd Rhydd Celtaidd, gwybodaeth wedi'i diweddaru am gymudo, a'r cyhoeddiad pontio diweddar ynghylch Gwaith Dur TATA.

**4.1.2** Yn unol â'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (LICD), modelwyd nifer o senarios twf i ganfod y lefel fwyaf priodol o dwf tai a chyflogaeth ar gyfer Castell-nedd Port Talbot yn ystod cyfnod 15 mlynedd y cynllun (2023-2038), gan gynnwys rhai a arweinir yn ddemograffig, yn economaidd a chan anheddau, fel a ganlyn:

**Table 4.1.1**

| Senario Twf | Cartrefi (y flwyddyn) | Cartrefi dros gyfnod y Cynllun | Cartrefi dros gyfnod y Cynllun (gan gynnwys Hyblygrwydd o 10%) | Swyddi (y flwyddyn) | Swyddi dros Gyfnod y Cynllun |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. Addasu'r Craidd | 130 | 1,950 | 2,145 | 121 | 1,815 |
| 2. Gwaelodlin Cyflogaeth | 161 | 2,415 | 2,657 | 130 | 1,950 |
| 3. Addasu Ategol | 232 | 3,480 | 3,828 | 237 | 3,555 |
| 4. Cyfradd Gyflawni Gyfartalog y 15 mlynedd diwethaf | 238 | 3,570 | 3,927 | Amh | Amh |
| 5. Twf Poblogaeth (TP) - Hirdymor | 261 | 3,915 | 4,307 | 181 | 2,715 |
| 6. Prif Ragfynegiad LIC 2018 | 285 | 4,275 | 4,703 | 152 | 2,280 |
| 7. Yr Angen am Dai (LHMA) | 296 | 4,445 | 4,890 | Amh | Amh |

1 Mae'r EHGA yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd a bydd yn cael ei gyhoeddi'n rhan o'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffafrir.

**4.1.3** Defnyddiodd y senarios a arweinir yn economaidd ragolygon gan Cambridge Econometrics, gyda'r **Gwaelodlin Cyflogaeth (Opsiwn 2)** yn defnyddio tuedd facroeconomaidd, gan ddarparu 'sylfaen achosion' oedd yn cymryd i ystyriaeth ddata tueddiadau hanesyddol, rhannu yn ôl sectorau a thueddiadau cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'r senario hwn wedi'i seilio ar y darlun cenedlaethol ac nid yw'n adlewyrchu amgylchiadau lleol penodol.

**4.1.4** Gan gymryd i ystyriaeth y colledion swyddi a ragwelid yn sgîl cyfnodau cychwynnol y pontio yng ngwaith dur TATA, a'r cyfleoedd buddsoddi posibl a allai gael eu cynnig i gynhyrchu swyddi ychwanegol, modelwyd senarios pellach.

**4.1.5** Bu **'Senario Addasu'r Craidd' (Opsiwn 1)**, yn modelu'r colli swyddi yn TATA ac yn gwneud rhai rhagdybiaethau twf economaidd cymedrol ar sail dynodi'r Porthladd Rhydd Celtaidd a chyfleoedd buddsoddi eraill posibl. Gan fod peth ansicrwydd ynghylch y buddsoddiadau posibl hyn, defnyddiwyd rhagdybiaethau mwy cymedrol.

**4.1.6** Y rhagolwg economaidd mwyaf cadarnhaol yw'r **'Senario Addasu Ategol' (Opsiwn 3)** sy'n adlewyrchu rhagdybiaeth fwy uchelgeisiol o ran buddsoddi yn y dyfodol, ac sy'n rhagdybio lefel twf uwch yn sgîl cyfleoedd buddsoddi pellach sy'n gysylltiedig â'r Porthladd Rhydd.

**4.1.7** Y ddau opsiwn ag arweiniad demograffig yw'r canlynol:

- • **Prif Ragfynegiad Llywodraeth Cymru (LIC) 2018 (Opsiwn 6)**, a fodelwyd gan ddefnyddio Prif amrywiad rhagfynegiad swyddogol LlC yn 2018, a seiliwyd ar dueddiadau demograffig y 5 mlynedd blaenorol;
- • **Twf Poblogaeth (TP) Hirdymor (Opsiwn 5)**, sy'n addasu Prif Ragfynegiad swyddogol LlC i gymryd i ystyriaeth amcangyfrifon canol blwyddyn 2019, 2020 a 2021, ac sy'n rhagdybio y bydd twf y boblogaeth yn parhau â thueddiadau'r 10 mlynedd blaenorol.

**4.1.8** **Mae Opsiwn 4 (Cyfradd Gyflawni Gyfartalog y 15 mlynedd diwethaf)** yn cyflwyno senario twf a arweinir gan anheddau, gan ddangos cyfradd gyfartalog yr adeiladu yn ystod y cyfnod o 15 mlynedd rhwng 2008/09 a 2022/23, sy'n cyfateb i 238 o gartrefi y flwyddyn. Yn ystod y cyfnod hwn, cyflwynwyd 433 o swyddi y flwyddyn, ond ni fernir bod ailgreu'r lefel hon o dwf swyddi yn ymarferol bosibl.

**4.1.9** Yng nghyd-destun yr uchod, mae'n ddefnyddiol nodi faint o dai a swyddi a gyflwynwyd yn CNPT yn ystod cyfnod y CDLl presennol (2011-2026).

**Table 4.1.2**

| Y Cynllun a Fabwysiadwyd | Cartrefi (y flwyddyn) | Cartrefi dros Gyfnod y Cynllu | Cartrefi dros Gyfnod y Cynllun (gan gynnwys hyblygrwydd o 12.31%) | Swyddi (y flwyddyn) | Swyddi dros Gyfnod y Cynllun | Cartrefi dros Gyfnod y Cynllun a gyflwynwyd hyd at 2022/23 (cyfartaledd y flwyddyn) | Swyddi dros Gyfnod y Cynllun a gyflwynwyd hyd at 2019 (cyfartaledd y flwyddyn) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CDLI CNPT 2011-2026 | 520 | 7800 | 8760 | 257 | 3850 | 2,559 (213 y flwyddyn) | 5,100 (567 y flwyddyn) |

**4.1.10** Mae tangyflwyno tai wedi arwain at oblygiadau i'r trigolion presennol; gydag oedolion iau yn byw ar aelwydydd sy'n tyfu fwyfwy. Mae Turleys wedi cymryd hyn i ystyriaeth wrth fodelu rhagfynegiadau i'r dyfodol trwy addasu'r Cyfraddau Aelodaeth Aelwydydd (HMR), (sef cyfradd trosi'r boblogaeth yn aelwydydd). Byddai'r addasiad yn arwain at gynnydd yn yr angen am dai, gan ragdybio y byddai datblygu cartrefi ychwanegol yn rhoi cyfle i aelwydydd cudd ddewis ffurfio'u haelwydydd eu hunain. Mae Opsiynau 1-3, 5 a 6 yn cynnwys yr addasiad hwn.

**4.1.11** **Mae Opsiwn 7 (Yr angen am Dai - LHMA)** yn ystyried yr angen am dai yn Asesiad Tai Marchnad Lleol drafft 2023 (LHMA), ar sail Prif Ragfynegiad LIC yn 2018, ac mae'n cwmpasu'r cyfnod o 2021-2036. Nododd yr LHMA ôl-groniad o angen am dai fforddiadwy, sef 542 o anheddau'r flwyddyn, i'w gyflawni yn ystod 5 mlynedd cyntaf y Cynllun. O'u cyfuno, mae anghenion tai marchnad a fforddiadwy dros y cyfnod o 15 mlynedd yn cyfateb i 4,445 o gartrefi. Er nad yw'r twf economaidd ar gyfer yr opsiwn hwn wedi cael ei fodelu'n benodol, bernir mai rhagdybiaeth resymol fyddai bod hynny'n cyfateb i'r twf swyddi a fodelwyd ar gyfer Opsiwn 6 – Prif ragfynegiad LIC 2018, gan fod yr un rhagfynegiad aelwydydd (sy'n sbarduno twf swyddi) wedi cael ei ddefnyddio yn yr LHMA. Nid yw hwn yn senario a arweinir gan dai fforddiadwy, fel yr awgrymir gan y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu.

**4.1.12** Cyflwynir pob un o'r opsiynau uchod gan gynnwys lwfans hyblygrwydd a bennwyd ar 10%, a awgrymir fel man cychwyn yn y LICD. Gwnaed hyn at ddibenion enghreifftiol yn y fan hon i roi darlun cywirach o'r ffigur gofynion tai posibl sy'n codi o bob opsiwn twf. Bydd lefel briodol o hyblygrwydd yn cael ei hystyried fel rhan o'r broses o baratoi'r CDLIA.

## 4.2 Dadansoddiad o'r Opsiynau Twf

**4.2.1** Edrychir ar fanteision ac anfanteision pob opsiwn isod:

**Table 4.2.1 Manteision pob Opsiwn Twf**

| Senario Twf / Manteision | Cyfradd adeiladu tai sy'n gyflawnadwy o ystyried tueddiadau'r gorffennol | Anghenion aelwydydd ifanc/cudd wedi'u cymryd i ystyriaeth | Cymerir i ystyriaeth adferiad economaidd cysylltiedig â phontio yn y gwaith dur, y Porthladd Rhydd a buddsoddiadau eraill a gynlluniwyd | Adferiad economaidd optimistig sy'n cefnogi dyheadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol | Potensial i gynyddu'r gweithlu sy'n economaidd weithredol trwy gynyddu'r ddarpariaeth dai | Potensial i leihau'r allgymudo trwy ddarparu cyfleoedd cyflogaeth | Seiliwyd ar duedd sefydlog hirdymor o dwf yn y boblogaeth | Yn deillio o Brif Ragfynegiad LIC 2018, felly'n cyd-fynd ag Angen Tai Rhanbarthol Cymru'r Dyfodol | Potensial i wneud y cyfraniad mwyaf cadarnhaol at ddiwallu'r anghenion presennol sydd heb eu diwallu a'r rhai sy'n codi o'r newydd o ran tai fforddiadwy a marchnad dros gyfnod y cynllun |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Addasu'r Craidd | + | + | + | | | | | | |
| 2. Gwaelodlin Cyflogaeth | + | + | | | | | | | |
| 3. Addasu Ategol | + | + | + | + | + | + | | | |
| 4. Cyfradd Gyflawni Gyfartalog y 15 mlynedd diwethaf | + | | | | | + | | | |
| 5. PG-Hirdymor | | + | | | | | + | + | |
| 6. Prif Ragfynegiad LIC 2018 | | + | | | | | | + | |
| 7. Yr Angen am Dai (LHMA) | | | | | | | | + | + |

## Table 4.2.2 Anfanteision pob Opsiwn Twf

| Senario Twf / Anfanteision | Methu diwalllu anghenion am dai fforddiadwy, fel bod mwy o angen am fathau eraill o lety | Rhagolygon is o ran cwblhau tai a thueddiadau hanesyddol diweddar | Ni fyddai'n cyflawni potensial llawn twf economaiddl | Potensial i gyfyngu ar y gweithlu llafur oherwydd diffyg twf tai | Potensial i greu mwy o allgymudo oherwydd y cyfyngu ar gyfleoedd economaidd uchelgeisiol | Nid yw'r dull cyfrifo yn rhan o'r anghenion tai a nodwyd yn Cymru'r Dyfodol | Ddim yn ddigon uchelgeisiol yn economaidd o ystyried tueddiadau'r gorffennol | Gwaelodlin economaidd wedi'i seilio ar dueddiadau macroeconomaidd sy'n efelychu'r darlun cenedlaethol, heb nodweddion lleol penodol | Heb ystyried effaith pontio yn y Gwaith Dur, y Porthladd Rhydd a buddsoddiadau eraill | Yn dibynnu ar gyflawni'r Porthladd Rhydd a buddsoddiadau eraill o fewn cyfnod y cynllun | Heb ystyried y berthynas rhwng tai a swyddi | Dim cysylltiad â'r rhagolygon economaidd | Byddai gofyn bod y rhan fwyaf o'r cyfleoedd tir tai a nodwyd yn symud ymlaen | Ddim yn senario a arweinir gan Dai Fforddiadwy |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Addasu'r Craidd | — | — | — | — | — | — | — | | | | | | | |
| 2. Gwaelodlin Cyflogaeth | — | — | | — | — | — | | — | — | | | | | |
| 3. Addasu Ategol | — | | | | | — | — | | | — | | | | |
| 4. Cyfradd Gyflawni Gyfartalog y 15 mlynedd diwethaf | | | | | | | — | | — | | — | — | | |
| 5. PG-Hirdymor | — | | | | | | | | — | | | | | |
| 6. Prif Ragfynegiad LIC 2018 | — | | | | — | | | | — | | | | | |
| 7. Yr Angen am Dai (LHMA) | | | | | | | | | | | | — | — | — |

## 5.1 Opsiynau Gofodal: Cyflwyniad

**5.1.1** Mae ystyried opsiynau gofodol realistig yn elfen bwysig o baratoi'r CDLIA. Bydd angen i bob opsiwn gofodol roi sylw i ddeddfwriaeth, polisi cynllunio cenedlaethol, a strategaethau lleol a rhanbarthol. Ymhellach, mae rhaid i'r Cynllun gymryd i ystyriaeth nodweddion, asedau a materion penodol CCNPT, a cheisio llywio datblygiad mewn modd sy'n ymateb i hynny. Rhoddwyd sylw i'r canlynol:

- Papur cefndir yn asesu aneddiadau;
- Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA);
- Dichonoldeb Tai Fforddiadwy;
- Perygl Llifogydd;
- Y Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas;
- Cyfyngiadau Ecolegol;
- Cyfyngiadau Tirlun; a'r
- Iaith Gymraeg.

**5.1.2** Bydd yr adran hon yn edrych ar yr amrywiol opsiynau gofodol a ystyriwyd, sef:

- Opsiwn A – Parhau â Strategaeth y CDLI presennol a fabwysiadwyd;
- Opsiwn B – Gwasgaru twf ar draws yr awdurdod;
- Opsiwn C – Ardal Twf Genedlaethol a Seilwaith Trafnidiaeth Gynaliadwy;
- Opsiwn D – Adeiladu ar gyfleoedd allweddol yn y Cymoedd;
- Opsiwn E – Dull Gweithredu Canol Trefi yn Gyntaf; ac
- Opsiwn F – Opsiwn sy'n cyfuno Opsiynau C a D.

## 5.2 Opsiwn Gofodol A - Parhau a Strategaeth y CDLI a Fabwysiadwyd

**5.2.1** Rhannodd y CDLI a Fabwysiadwyd y Fwrdeistref Sirol yn wyth ardal ofodol, oedd yn cynnwys dwy dref Castell-nedd a Phort Talbot ac ardaloedd Cwm Afan, Dyffryn Aman, Cwm Dulais, Cwm Nedd, Pontardawe a Chwm Tawe o'u hamgylch. Yna cyfunwyd y rhain i greu dwy ardal gynllunio strategol:

- **Coridor yr Arfordir** (oedd yn cynnwys y ddwy brif ardal drefol a chymunedau ategol Castell-nedd a Phort Talbot); a'r
- **Cymoedd** (oedd yn cynnwys Cwm Afan, Dyffryn Aman, Cwm Dulais, Cwm Nedd, Pontardawe a Chwm Tawe).

**5.2.2** Roedd **Coridor yr Arfordir** yn cynnwys y prif ganolfannau poblogaeth, seilwaith a chyfleusterau, ac yn elwa o fynediad hwylus i'r M4, oedd yn golygu bod yr ardal yn fwy deniadol o safbwynt buddsoddi ar gyfer datblygiadau busnes, masnachol a phreswyl.

**5.2.3** Roedd **Y Cymoedd** yn fwy gwledig eu natur, gyda chyfleoedd mwy cyfyngedig i ddatblygu oherwydd y topograffi, a rhai cyfyngiadau o ran cael mynediad i'r prif lwybrau trafnidiaeth (y rheilffordd a'r M4).

**5.2.4** Nod **strategaeth y CDLI cyfredol**, felly, oedd "hwyluso twf yn CNPT, gyda ffocws ar Goridor yr Arfordir, ochr yn ochr ag adfywio cymunedau'r cymoedd".

**5.2.5** Yn benodol, roedd hynny'n golygu:


- Crynhoi datblygu ar hyd Coridor yr Arfordir ac yn ardaloedd trefol Castell-nedd a Phort Talbot, gan gydnabod rôl bwysig yr aneddiadau hyn yn y cyd-destun ehangach;

- Mwyafu manteision diddordeb y farchnad ar hyd Coridor yr Arfordir ac ysgogi twf trwy gyflwyno safleoedd cyflogaeth strategol ac ardaloedd adfywio strategol;
- Nodi Pontardawe a phen uchaf Cwm Nedd fel ardaloedd twf strategol yn y Cymoedd, a fydd yn creu mecanwaith ar gyfer cydlynu buddsoddiad a sicrhau bod manteision twf ac adfywio yn cael eu rhannu'n ehangach ar draws cymunedau'r Cymoedd; a
- Darparu agwedd hyblyg at ddatblygu yng nghymunedau'r Cymoedd.

**5.2.6** Seiliwyd lefel y twf ar sefyllfa uchelgeisiol lle roedd yr elfen economaidd yn arwain, gyda'r nod o fwyafu twf swyddi yn yr economi leol.

**5.2.7** Roedd y strategaeth ofodol yn cydnabod yr angen am sicrhau bod seilwaith priodol yn ei le eisoes, neu bod modd ei ddarparu i gwmpasu lefel y twf a nodwyd. Rhan annatod o'r strategaeth, felly, oedd cyflwyno seilwaith newydd i gynnal dyraniadau a thwf i'r dyfodol. Roedd y strategaeth yn cynnal nifer o brosiectau seilwaith allweddol oedd yn cael eu hystyried yn hanfodol er mwyn cyflawni nifer o ddyraniadau strategol, gan gynnwys safleoedd tai, cyflogaeth ac adfywio.

## Figure 5.1 Opsiwn Gofodol A – Parhau â Strategaeth y CDLl a fabwysiadwyd




**5.2.8** Crynhoir prif fanteision ac anfanteision y strategaeth hon isod.

**Manteision**

- Roedd yn caniatáu ar gyfer amrywio'r strategaeth rhwng y cymoedd a chymunedau'r arfordir;

- Cyflwynwyd gwelliannau allweddol i'r seilwaith – Gorsaf Parcffordd Port Talbot a'r hwb Trafnidiaeth Integredig; Ffordd Gyswllt Parc Ynni Baglan; Ffordd yr Harbwr a Ffordd Amazon; ac mae'n
- Darparu dilyniant; a
- Byddai'n darparu twf mewn ardaloedd cynaliadwy sydd â mynediad at gyfleusterau.

**Anfanteision**


- Mae ardaloedd adfywio strategol allweddol yn dal heb ddatblygu yn ôl y disgwyl (e.e. Coed Darcy, Glannau'r Harbwr, Bae Baglan);
- Mae'r twf yn nifer y swyddi wedi bod yn uwch na'r disgwyl yn ystod cyfnod y cynllun, ond nifer bach fu'n manteisio ar safleoedd cyflogaeth strategol;
- Mae lefel y tai a gyflwynwyd heb gyrraedd y gyfradd adeiladu flynyddol o 520, ac mae tua 213 y flwyddyn; ac
- Nid yw'r pwyntiau twf o amgylch Glyn-nedd a Phontardawe wedi cael eu gwireddu fel y rhagwelwyd (Preswyl a Thwristiaeth).

### 5.3 Opsiwm Gofodol B - Gwasgaru twf ar draws yr Awdurdod

**5.3.1** Mae'r opsiwn hwn yn canolbwyntio ar dwf sy'n digwydd ar draws yr awdurdod – o'r trefi i'r aneddiadau bychain, fel y nodwyd yn yr hierarchaeth aneddiadau. Byddai hynny'n digwydd ar ffurf cyfres o safleoedd bach i ganolig, heb ddibyniaeth ar safleoedd strategol unigol ar raddfa fawr.

**5.3.2** Mae'r gofynion seilwaith allweddol yn debygol o gwmpasu cynlluniau ar draws y sir.

## Figure 5.2 Opsiwn Gofodol B – Gwasgaru twf ar draws yr Awdurdod




**5.3.3** Amlygir prif fanteision ac anfanteision y strategaeth hon isod:

**5.3.4 Manteision**

- Strategaeth wasgaru sy'n targedu datblygu ar draws y Fwrdeistref Sirol gyfan, ar lefel gymesur â maint pob anheddiad sydd eisoes yn bodoli;
- Byddai'n helpu i gynnal cyfleusterau mewn aneddiadau presennol, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig;
- Ni fyddai'n dibynnu ar un safle strategol unigol ar raddfa fawr;
- Byddai ffocws ar asesiad cynaliadwyedd cymesur; ac
- Mae potensial i aneddiadau llai dyfu, a dod yn fwy cynaliadwy trwy gynnwys cyfleusterau pob dydd lleol ychwanegol, neu gynnal eu cyfleusterau presennol.

**Anfanteision**

- Gallai dichonoldeb safleoedd olygu nad yw safleoedd yn cael eu cynnig;
- Gallai gwasgaru twf datblygu arwain at fwy o ddibyniaeth ar geir preifat oherwydd bod darpariaeth teithio llesol gyfyngedig yn ardaloedd mwy gwledig yr awdurdod, a diffyg cyfatebiaeth rhwng lleoliad cartrefi a swyddi;
- Efallai na fydd safleoedd addas yn yr holl aneddiadau a nodwyd;
- Byddai'r twf yn bennaf ar safleoedd tir glas;
- Gallai arwain at ddatblygu darniog ar raddfa fach;

- Gallai rhai ardaloedd gwledig fod o dan anfantais oherwydd na fyddai pob un ohonynt yn elwa o dwf neu dai ychwanegol i ddenu cyfleusterau ychwanegol;
- Gallai gofynion seilwaith fod yn ofynnol;
- Gallai'r gwasanaethau fod yn gyfyngedig mewn aneddiadau haenau is; ac
- Ni fyddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i gymeriad a chyfyngiadau amgylcheddol yr anheddiad.

### 5.4 Opsiwn Gofodol C - Ardal Twf Genedlaethol a Seilwaith Trafnidiaeth Gynaliadwy

**5.4.1** Byddai'r opsiwn gofodol hwn yn gweld twf yn unol â strategaeth y CDLl presennol, gyda'r rhan fwyaf o'r twf ar hyd Coridor yr Arfordir; er byddai'r dull gweithredu'n fwy cymedrol o ystyried cyfraddau cyflawni'r CDLl a fabwysiadwyd, sy'n is na'r disgwyl.


**5.4.2** Dyma rai o'r nodweddion allweddol:

- Canolbwyntio datblygu yn unol â'r Ardal Twf Genedlaethol (ATG);
- Canolbwyntio twf cyflogaeth ar draws yr ATG trwy ddatblygu'r Porthladd Rhydd, y Porthladd, Glannau'r Harbwr, a Pharc Ynni Baglan;
- Bydd twf yn digwydd yn y Cymoedd hefyd i gyd-fynd â'r swyddi a greir yn yr ATG, fodd bynnag bydd hynny'n gymesur â maint, rôl a swyddogaeth aneddiadau presennol;
- Mwyafu manteision diddordeb y farchnad ar hyd yr ATG ac ysgogi twf trwy gyflwyno safleoedd cyflogaeth strategol;
- Cefnogir cyfleoedd i ddiwallu anghenion lleol yng ngweddill y sir;
- Cydleoli swyddi a chartrefi ar hyd Coridor yr Arfordir i leihau cymudo;
- Patrymau datblygu cynaliadwy; ac
- Adeiladu ar ddatblygiadau o'r CDLl a fabwysiadwyd er mwyn darparu cyfleoedd i ehangu diwydiant a'r economi wybodaeth, twf gwyrdd (sero net).

**5.4.3** Gofynion allweddol o ran seilwaith:

- Annog cyfleoedd buddsoddi sydd wedi'u crynhoi yn yr ATG i gefnogi Clwstwr Diwydiannol De Cymru (SWIC); statws y Porthladd Rhydd Celtaidd, Porthladd Port Talbot, a dyheadau Bargen Ddinesig Bae Abertawe;
- Gall hyn gynnwys gwelliannau cysylltiedig â Metro De-orllewin Cymru, Cyffordd yr M4/A465, y Rhwydwaith Teithio Llesol, Coridor yr A465 Glyn-nedd (cysylltiadau â Chanolbarth Lloegr) a gofynion seilwaith eraill a nodir wrth i astudiaethau pellach gael eu cynnal; ac
- Adeiladu ar ddatblygiadau o'r CDLl a fabwysiadwyd – datblygiadau yn deillio o Gampws y Bae Prifysgol Abertawe, Parc Ynni Baglan, a Glannau'r Harbwr, fel bod cyfleoedd i ddiwydiant a'r economi wybodaeth ehangu, twf gwyrdd (sero net).

# Figure 5.3 Opsiwn Gofodol C - Ardal Twf Genedlaethol a Seilwaith Trafnidiaeth Gynaliadwy




**5.4.4** Crynhoir prif fanteision ac anfanteision y strategaeth hon isod:

**Manteision**

- Datblygu ardaloedd sydd eisoes wedi'u nodi yn haenau uwch yr hierarchaeth aneddiadau;
- Twf ag arwyddocâd rhyngwladol, cenedlaethol a rhanbarthol;
- Cydymffurfio â Chymru'r Dyfodol;
- Mwyafu cyfleoedd Twf Gwyrdd yn ardal yr arfordir;
- Cyfeirio'r rhan fwyaf o'r twf i'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy sydd â seilwaith teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus; a
- Gallu i ledaenu Teithio Llesol ymhellach i'r cymoedd.

**Anfanteision**

- Byddai'r datblygiadau wedi'u crynhoi mewn ardaloedd allweddol yn unig; a
- Dim ond twf cyfyngedig fyddai'n digwydd yn y cymoedd, felly efallai na fyddai potensial llawn cyfleoedd fel Canolfan Antur Coedwig Afan a GCRE yn cael ei wireddu.

## 5.5 Opsiwn Gofodol D - Adeo;adu ar gyfleoedd yn y Cymoedd


**5.5.1** Ffocws ar y cymoedd i gyflwyno datblygiadau arloesol, llawn gweledigaeth. Mae hynny'n golygu:

- Nodi ardaloedd i fod yn ffocws ar gyfer cyflwyno twf ym mhob cwm, a sut bydd manteision pob lleoliad allweddol yn cael eu gwasgaru;
- Nodir ardaloedd adfywio gwledig allweddol o amgylch Canolfan Antur Cwm Afan, GCRE, y prosiectau Ffyniant Bro a chyfleoedd eraill ar gyfer twf gwyrdd (megis ffermydd gwynt, prosiectau batrïoedd storio) lle mae potensial i raddfa'r cynigion gael effaith sylweddol ar yr ardal. Bydd prosiectau ag arwyddocâd cenedlaethol a rhyngwladol yn gweithredu fel catalydd ar gyfer cyfleoedd tymor hir;
- Bydd seilwaith band eang o'r radd flaenaf yn hwyluso newid pwysig mewn patrymau gwaith trwy ganiatáu i bobl weithio gartref mewn ardal hardd, actif, fydd yn gwneud y cymoedd yn fannau mwy deniadol i fyw a gweithio ynddynt;
- Bydd prosiectau a chyfleoedd treftadaeth a thwristiaeth fel Cwm Treftadaeth Nedd, Beicio Mynydd yng Nghoedwig Afan, a theithiau cerdded niferus wrth y rhaeadrau yn helpu i ddatblygu'r cymoedd fel cyrchfan, a manteisio ar eu lleoliad fel porth i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog;
- Nodi Pontardawe a'r cyffiniau fel ardal twf;
- Nodi Glyn-nedd fel ardal gysylltedd bosibl oherwydd y gwaith gwella sy'n parhau ar yr A465; a
- Thwf mwy cymedrol wedi'i wasgaru ar draws gweddill y Fwrdeistref Sirol.

**5.5.2** I gyflawni hyn, mae angen y gofynion seilwaith canlynol:

- Safleoedd Adfywio Gwledig gan gynnwys: GCRE, yn cynnwys y campws arloesedd, Canolfan Antur Cwm Afan, Cwm Treftadaeth Nedd, prosiect Ffyniant Bro, gwlad y sgydau);
- Seilwaith Allweddol: coridor yr A465 (cysylltiadau â chanolbarth Lloegr);
- Ehangu'r Rhwydwaith Teithio Llesol i mewn i'r Cymoedd;
- Datblygiadau ynni adnewyddadwy twf gwyrdd (Gwynt, Haul, Batrïoedd Storio); a
- Seilwaith band eang a dull polisi hyblyg i hybu gweithio gartref.

# Figure 5.4 Opsiwn Gofodol D - Adeo;adu ar gyfleoedd yn y Cymoedd




**5.5.3** Crynhoir y prif fanteision ac anfanteision isod:

**Manteision**

- Adfywio cymunedau'r cymoedd sydd wedi bod heb fuddsoddiad am gyfnodau hir;
- Annog buddsoddi pellach cysylltiedig â diwydiant;
- Gwneud yn fawr o asedau economaidd y cymoedd; a
- Mwyafu'r cyfleoedd a allai ddod yn sgîl y datblygiadau graddfa fawr.


**Anfanteision**

- Nid yw'n cyd-fynd â pholisi 28 Cymru'r Dyfodol yn yr ystyr y dylai cynlluniau gydnabod yr ATG fel ffocws ar gyfer twf strategol ac economaidd;
- Nid yw'n cydnabod cryfder a phwysigrwydd economaidd Coridor yr Arfordir;
- Gallai diddordeb cyfyngedig datblygwyr tai yn y cymoedd gyfyngu ar nifer yr eiddo a adeiladir;
- Mae cysylltiadau teithio llesol yn fwy cyfyngedig;
- Diffyg cyfatebiaeth yn lleoliad cartrefi a swyddi, a allai annog mwy o gymudo;
- Mae dichonoldeb yn dal yn ymylol ar draws CNPT, yn arbennig mewn rhai cymunedau; a
- Dim Tai yn cael eu cyflwyno yn yr ardaloedd lle mae'r angen mwyaf.

## 5.6 Opsiwn Gofodol E - Dull Gweithredu Canol Trefi yn Gyntaf

**5.6.1** Mae'r opsiwn hwn yn datblygu'r dull gweithredu a nodir yn Cymru'r Dyfodol a Pholisi Cynllunio Cymru, sef y dylai pob datblygu ddigwydd yng nghanol trefi yn gyntaf.

## Figure 5.5 Opsiwn Gofodol E - Dull Gweithredu Canol Trefi yn Gyntaf




**5.6.2** Crynhoir prif fanteision ac anfanteision y strategaeth hon isod:

**Manteision**

- Creu amgylcheddau canol tref cynaliadwy sy'n cynnwys cyfuniad o ddefnyddiau rhyngddibynnol, cydweddus a chyflogaeth, lle bo hynny'n briodol, yn ogystal â manwerthu a hamdden masnachol;
- Lleihau'r angen am deithio trwy gydleoli tai, seilwaith a gwasanaethau, a chynyddu'r potensial ar gyfer gwireddu manteision Teithio Llesol; a
- Dechrau ailddefnyddio safleoedd ac adeiladau canol tref gwag / nad ydynt yn cael defnydd digonol, a mynd ati i ailddatblygu lle bo angen.

**Anfanteision**

- Cyfyngir ar ganol trefi yn CNPT gan lifogydd a ffactorau eraill;
- Cyfleoedd ar gyfer datblygiadau ar raddfa fach yn unig;
- Angen buddsoddiad sylweddol mewn seilwaith i gyflawni'n llwyddiannus e.e. newid llwybr ffyrdd presennol;

- Byddai dechrau ailddefnyddio safleoedd gwag / nad ydynt yn cael defnydd digonol yng nghanol trefi yn galw am ymyrraeth sector cyhoeddus a chydweithio rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat, ac mae cyfyngiadau amser a dichonoldeb i hynny; a
- Diffyg safleoedd datblygu addas yng nghanol trefi.

### 5.7 Opsiwn Gofodol F - Cyfuno Opsiwn C ac Opsiwn D

**5.7.1** Hwyluso dosbarthiad twf cynaliadwy i gefnogi datblygiadau gwyrdd arloesol ar hyd Coridor yr Arfordir ac yn ardaloedd y Cymoedd. Byddai hynny'n cynnwys:


- Ffocws i ddatblygu ar hyd Coridor yr Arfordir, yn unol â'r ATG;
- Ffocws ar dwf cyflogaeth ar draws yr ATG trwy ddatblygu'r Porthladd Rhydd, y Porthladd, Glannau'r Harbwr a Pharc Ynni Baglan;
- Bydd twf yn digwydd yn y Cymoedd hefyd i gyd-fynd â'r swyddi a greir ar hyd Coridor yr Arfordir, fodd bynnag, bydd hynny'n gymesur â maint, rôl a swyddogaeth aneddiadau presennol;
- Gwneud yn fawr o fanteision diddordeb y farchnad ar hyd yr ATG ac ysgogi twf trwy gyflwyno safleoedd cyflogaeth strategol;
- Cefnogir cyfleoedd i ddiwallu anghenion lleol yng ngweddill y sir;
- Cydleoli swyddi a chartrefi ar hyd Coridor yr Arfordir i leihau'r cymudo;
- Adeiladu ar ddatblygiadau o'r CDLI a fabwysiadwyd i ddarparu cyfleoedd i ehangu diwydiant a'r economi wybodaeth, twf gwyrdd (sero net);
- Nodi ardaloedd fydd yn ffocws ar gyfer cyflawni twf ym mhob cwm, a sut bydd manteision yn cael eu gwasgaru o bob lleoliad allweddol;
- Nodir ardaloedd adfywio gwledig allweddol o amgylch Canolfan Antur Cwm Afan, GCRE, y prosiectau Ffyniant Bro a chyfleoedd eraill ar gyfer twf gwyrdd (megis ffermydd gwynt, prosiectau batrïoedd storio) lle gallai graddfa'r cynigion gael effaith sylweddol ar yr ardal. Bydd prosiectau ag arwyddocâd cenedlaethol a rhyngwladol yn gweithredu fel catalydd ar gyfer cyfleoedd hirdymor;
- Bydd seilwaith band eang o'r radd flaenaf yn hwyluso newid pwysig mewn patrymau gwaith, fel bod modd i bobl weithio gartref mewn ardal hardd, actif, fydd yn golygu bod y cymoedd yn lleoedd mwy deniadol i fyw a gweithio ynddynt;
- Bydd prosiectau treftadaeth a thwristiaeth a chyfleoedd megis Cwm Treftadaeth Nedd, Beicio Mynydd yng Nghoedwig Afan, a theithiau cerdded niferus i raeadrau yn helpu i ddatblygu'r cymoedd fel cyrchfan a manteisio ar eu lleoliad fel porth i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog;
- Nodi Pontardawe a'r cyffiniau fel ardal twf; a
- Nodi Glyn-nedd fel safle posibl ar gyfer cysylltedd oherwydd y gwaith gwella sy'n parhau ar yr A465.

**5.7.2** Gofynion allweddol o ran seilwaith:

- Annog cyfleoedd buddsoddi sydd wedi'u crynhoi yn yr ATG i gefnogi Clwstwr Diwydiannol De Cymru (SWIC), statws y Porthladd Rhydd Celtaidd, Porthladd Port Talbot, a dyheadau Bargen Ddinesig Bae Abertawe;
- Gallai hynny gynnwys gwelliannau cysylltiedig â Metro De-orllewin Cymru, Cyffordd yr M4/A465, y Rhwydwaith Teithio Llesol, coridor yr A465 Glyn-nedd (cysylltiadau â chanolbarth Lloegr) a gofynion seilwaith eraill, fel y nodir wrth i astudiaethau pellach gael eu cynnal;

- Adeiladu ar ddatblygiadau o'r CDLl a Fabwysiadwyd – Campws y Bae Prifysgol Abertawe, Parc Ynni Baglan, a datblygiad yn sgîl Glannau'r Harbwr yn darparu cyfleoedd i ehangu diwydiant a'r economi wybodaeth, twf gwyrdd (sero net).
- Cynnwys twristiaeth a chefnogi twf a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg, megis GCRE, Canolfan Antur Cwm Afan, Beicio yng Nghoedwig Afan, prosiect Ffyniant Bro y Cwm Treftadaeth; bydd Parc Gwledig y Gnoll a gwlad y sgydau yn helpu i ddatblygu CNPT fel cyrchfan a manteisio ar ein lleoliad fel porth i Barc Cenedlaethol Bannau Brynheiniog;
- Datblygiadau ynni adnewyddadwy twf gwyrdd (Gwynt, Haul, Batrïoedd Storio); a
- Seilwaith Band Eang ac agwedd polisi hyblyg i hyrwyddo gweithio gartref.

## Figure 5.6 Opsiwn Gofodol F - Cyfuno Opsiwn C ac Opsiwn D




**5.7.3** Crynhoir prif fanteision ac anfanteision y strategaeth hon isod:

**Manteision**

- Mae'n cyfeirio'r rhan fwyaf o'r twf i'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy, sydd â seilwaith teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus;
- Cydleoli cartrefi a swyddi i leihau'r cymudo a hybu ffordd actif a iach o fyw;
- Cyflwyno tai yn yr ardaloedd lle mae'r angen mwyaf ac i ddiwallu anghenion lleol; ac
- Adfywio cymunedau'r cymoedd lle na fu buddsoddi ers cyfnodau hir.

**Anfanteision**

- Mae dichonoldeb yn dal yn ymylol ar draws CNPT, yn arbennig mewn rhai cymunedau;
- Byddai'n golygu datblygu ar rai safleoedd tir gwyrdd, y gallai fod gan rai ohonynt bwysigrwydd o ran bioamrywiaeth, y tirlun neu amaethyddiaeth.

**Cliciwch ar y cod QR isod**
**am wybodaeth bellach**

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council